



# Gwers 3

## Byd Perffaith Duw



Cyfres Stori Duw

Genesis 2:1–25, a Datguddiad 21:1–4, 22:1–5 • • • • •

### Nod:

I ddeall (a) mai bywyd fel Eden oedd cynllun Duw i'r ddynoliaeth, ac y caiff ei adfer; (b) bod pobl yn wahanol i weddill y greadigaeth, a bod ganddynt berthynas unigryw â Duw.

### Adnodau:

Genesis 2:1–25, a Datguddiad 21:1–4, 22:1–5

### Gweithgaredd:

Bydd angen Lego neu rywbeth tebyg arnoch, neu gallwch wneud llun os nad ydych yn gallu cael gafael ar Lego.

Cyn i'r wers ddechrau gwnewch strwythur allan o Lego, blociau adeiladu neu rywbeth tebyg. Gadewch i'r grŵp gael munud neu ddau i'w astudio yna torrwyd ef i lawr yn flociau unigol (neu guddio'r llun). Gofynnwch iddynt ei ailadeiladu – yn ddelfrydol ni fyddant yn gallu gwneud hyn. Ar ôl gadael iddynt drio am ychydig, adeiladwch chi'r strwythur eto.

Eglurwch fod Duw wedi creu'r byd yn berffaith, ac er nad yw'r byd yn berffaith rŵan, fe fydd Duw yn ail greu'r byd yn berffaith rhyw ddydd.

### Adolygu:

Bydd angen pêl, bin papur neu fwced a losin arnoch.

Gofynnwch gwestiynau am y wers flaenorol. Gwnewch hyn ar ffurf cwis, a chaiff pwy bynnag sy'n rhoi ateb cywir gyfle i daflu pêl at fin papur neu fwced. Os ydynt yn

taflu'n llwyddiannus gallwch roi losin iddynt. Gofynnwch beth oedd y darlenniad y tro diwethaf yn ei ddweud wrthym am Dduw, am bobl, ac am y byd? Cofiwch eu helpu os nad yw'r atebion yn dod yn hawdd. Gorffennwch y cwis drwy ofyn beth ddigwyddodd ar y seithfed dydd – gorffwys.

### Edrych ar yr adnodau:

Darllenwch yr adnodau (Genesis 2:1–25) a gofyn i'r bobl ifanc ddilyn yn eu Beiblau hwy. Wedi darllen rhowch grynodedd iddynt o'r darn. Mae'r disgrifiad o fywyd yng ngardd Eden yn dweud bod pobl, dynion a merched, yng nghanol creadigaeth Duw. Maen nhw'n wahanol i'r anifeiliaid. Cafodd dynion a merched eu creu i fod mewn perthynas â Duw, ac roeddent o dan ei awdurdod Ef, i reoli'r holl greadigaeth. Yn Eden, roedd Adda ac Efa yn byw mewn lle hyfryd yr oedd Duw wedi'i greu ar eu cyfer, ac roeddent yn byw mewn perthynas agos, llawen a di-dor gydag Ef. Roedd bywyd yn dda iawn!

### Gweithgaredd:

Wedi edrych ar yr hanes, cyfeiriwch hwy yn ôl at adnodau 18–20 lle mae Duw yn gofyn i Adda i enwi'r holl adar ac anifeiliaid. Sut fydden nhw yn mynd ati i wneud hyn? Rhowch gopi o Atodiad 2 iddynt a'u rhannu i grwpiau i drafod ac ailenwi'r anifeiliaid. Rhowch farciau am yr enwau mwyaf gwreiddiol, neu am resymau diddorol dros yr enwau newydd.

### Trafodaeth:

Gwelir yn Genesis 2 fod pethau'n dda iawn



Yng ngardd Eden, bod Adda ac Efa'n byw mewn perthynas agos iawn â'i gilydd, â'r greadigaeth ac â Duw. Gofynnwch i'r bobl ifanc a ydy hyn yn wir am y byd heddiw?

Ydy holl ddynion a merched y byd yn byw mewn perthynas agos iawn â'i gilydd?

Ydy holl ddynion a merched y byd yn byw mewn perthynas agos iawn â'r greadigaeth? Sut gyflwr y mae'r byd ynddi heddiw?

Ydy holl ddynion a merched y byd yn byw mewn perthynas agos iawn â Duw?

Esboniwch y byddwn yn edrych y tro nesaf ar y rheswm pam nad yw pethau yn y byd heddiw fel ag yr oeddent yn Eden bryd hynny. Ond mae'r darlleniad nesaf yn dangos na fydd pethau yn aros fel hyn am byth.

### **Edrych ar yr adnodau:**

Ewch o amgylch y dosbarth yn gofyn i bawb ddarllen adnod yn eu tro o Ddatguddiad 21:1–4 a 22:1–5. A all y bobl ifanc weld tebygrwydd rhwng y darlleniad yn Genesis a'r darlleniad yn Datguddiad? Beth?

Beth fydd yn wahanol yn y byd yn y dyfodol o'i gymharu â'n byd ni heddiw? (canolbwyntiwch ar 21:4)

### **Amser Addoli:**

Fel dosbarth, gweddiwch y cewch nerth a chymorth Duw i garu gweddill y ddynoliaeth, i barchu a gofalu am y greadigaeth ac i garu Duw, ei adnabod yn well a'i ddilyn yn fwy ffyddlon.